Scrapbook –


2418421
ECEY 6005
Cynaliadwyedd
yn y
blynyddoedd
Cynnar
Hannah Jenkins


LLANDOVE
LLANDEILO
CARMARTHEN
LLANARTHNE
AUGHARNE
KIDWELLY
LLANELLI
Parc Dinefwr
Dyma un o fy hoff llefydd i fynd am dro.
Fel plentyn, treuliais llawer o amser lawr ar bwys afonydd bach yn chwilio am wahanol bryfed a planhigion.
Rwyf wastod wedi byw yn cefn gwlad, ac o gwmpas bywyd fferm.
Ar hyn o fryd, mae bywyd mor brysur. Pan mae amser gyda fi, byddaf yn mynd a'r ci am dro i Barc Dinefwr.
Mae derbyn gwobr John Muir fel rhan o'r aseiniad wedi caniatau i fi gwneud mwy o amser i archwilio mwy o Parc Dinefwr.


Darganfod
Mae Sir Caerfyrddin
yn llawn natur a
bywyd gwyllt.
Yn ystod amser
hyn o'r flwyddyn
mae Parc Dinefwr
yn llawn natur
sy'n ail-dyfu.
Trwy archwilio'r
ardal hon mae wedi
annog fi i edrych o
ddifrif ar y gwahanol
blanhigion a bywyd
gwyllt sy'n byw yn yr
ardal penodol hon.
Castle Wood
Dinefwr Park
Dyma map mwy
agos i ddangos
Parc Dinefwr.


Parc Dinefwr
Mae'r lleoliad yma yn bwysig
i fi oherwydd mae'n lle tawel
a heddychlon, sy'n helpu ymlacio
ar ol diwrnod brysur.
Yn ogystal a hynny, mae'r ci yn
mwynhau dod am dro yma.
Hefyd mae'n lleoliad arbennig ar
gyfer dysgu
am natur.
Dyma Goose.
Mae Dinefwr yn warchodfa
natur genedlaethol sy'n
ein galluogi i archwilio
coetiroedd hynafol, dolydd
blodau a parc ceirw.
Hefyd, mae golygfeydd
perffaith o Dŷ Newton
sy'n dirwedd hanesyddol.

# ARCHWILIO



Ar ôl darganfod Parc Dinefwr, roeddwn i eisiau archwilio'n fanylach. Edrychais ar ei fywyd gwyllt, hanes, tirweddau, a'r gwahanol pethau y gall pobl eu gweld a gwneud yno. Gan canolbwyntio mwy ar yr agwedd bywyd gwyllt. Helpodd hyn fi deall pam ei fod yn lle pwysig.



Y peth ↑ cyntaf gwelais pan cyrrhaeddais oedd aderyn du yn canu. Mae'r Aderyn du neu 'Mwyalchen' yn aderyn cyffredin a geir mewn parciau a coedtiroedd fel Parc Dinefwr. Mae'r gwryw yn ddu gyda phig melyn llachar, tra bod y fenyw yn frown. Mae'r aderyn du yn adnabyddus am eu caneuon. Maent yn helpu i ledaenu hadau a cadw niferoedd pryfed dan reolaeth.



Mae natur yn Parc Dinefwr yn llawn cynefinoedd gwahanol, gan gynnwys coetir hynafol a blodau gwahanol. Mae rhai o'r coed derw a dynnais yn y llun yma dros 700 mlwydd oed, sy'n eu gwneud ymhlith yr hynaf yn Prydain.

Welais y planhigyn yma ym mhob man. Mae i weld ei fod yn llawn aeron. Ar ol archwilio mae'n edrych fel 'Cuckoo-pint'.

Ffaith bwysig yw bod pob rhan o'r planhigyn yma, yn enwedig yr aeron, yn wenwynig i bobl ac anifeiliaid anwes, felly ni ddylid eu bwyta byth.

Yn ogystal a hynny, roedd y blodyn yma yn tyfu yn y coedwig. Mae Campion coch yn flodyn gwyllt, gyda blodau pinc llachar. Mae'n tyfu mewn cynefinoedd coetir ac yn darparu neithdar i wenyn a gloynnod byw, gan ei wneud yn rhan bwysig o ecosystem Dinefwr. Yn aml, gellir ei weld yn tyfu ochr yn ochr a rhedyn a phlanhigion coetir eraill.


Fel plentyn, roeddwn i o hyd
yn chwarae gyda 'goose
grass'.
Yr enw iawn am y planhigyn
yma yw 'cleavers'.
Yn Ewrop, fe'i gelwir amlaf
yn 'goose grass'. Mae ganddo
flew bach bachog sy'n
gwneud iddo lynu wrth
dillad ac anifeiliaid.
Gelwir yn 'Glaswellt y gwydd'
oherwydd bod gwyddau yn
pori arno.
Roedd y blodau yma yn tyfu
o amgylch y 'goose grass'.
White Clover
•mae i weld bod y dail yn
cynnwys tair deilen fechan
gron.
•Mae'n tyfu'n isel i'r ddaear
mewn dolydd a gerddi.
•mae'n bwysig oherwydd ei
fod yn ffynhonell bwysig
o nectar.


Roedd y blodau yma yn tyfu ar ochr y llwybrau. Maent yn edrych fel dant y llew (dandelion) ond mae gwahaniaethau bach.
Hawkweed
Golden Hawkweed yw enw'r planhigion yma.
Wedi'i ganfod ar fy taith, fe atgoffodd ei liw bod harddwch yn aml yn tyfu yn y mannau symlaf.
Blodau gwyllt melyn llachar ydynt sy'n blodeuo o ddiwedd y gwanwyn trwy gydol yr haf, dyna pam eu bod yn blodeuo ar hyn o fryd. Maent yn ffynnu ar ymylon ffyrdd ac ymylon coetiroedd.
→ mae'n helpu cefnogi bioamrywiaeth leol drwy darparu bwyd i bryfed.
→ mae ei flodau melyn llachar yn darparu paill a nectar.
→ mae'n tyfu mewn priddoedd creigiog lle mae llawer o blanhigion eraill yn methu.



"Look deep into nature, and then you will understand everything better"

– Albert Einstein.

• mae hwn yn ddyfyniad pwysig i fi oherwydd ei fod yn fy atgoffa, gall natur ein dysgu gwersi pwysig. mae arsylwi ar natur wedi fy helpu i ddeall gwyddoniaeth yn well. mae hefyd wedi fy atgoffa i fod yn fwy chwilfrydig ac i werthfawrogi y byd o'n gwmpas.

Roedd yna llawer o drychfilod gwahanol trwy gydol fy taith, yn enwedig o amgylch y planhigion.

Trwy edrych yn fanwl ar bryfed, rydym yn darganfod bod hyd yn oed y creaduriaid lleiaf yn llawn rhyfeddod ac yn chwarae rhan bwysig wrth gadw natur yn fyw.

mae morgrug yn gweithio mewn cytrefi trefnus iawn.


CASTELL DINEFWR
O amgylch ac tu fewn y castell mae yna byrddau gwybodaeth.
Cafodd y Castell i adeiladu yn yr 1100 (12fed canrif).
Roedd yn cartref i'r Arglwydd Rhys.
Mae'r castell yn un o gestyll canoloesol pwysicaf Cymru.



Hefyd, darllenais byrddiau gwybodaeth am Tŷ Newton, sef hen dŷ sydd wedi eu leoli yn parc Dinefwr.

→ Tŷ gwledig o'r 17eg ganrif.

→ Cafodd ei adeiladu yn 1660 gan Edward Rice.

→ Daeth y tŷ yn gartref i ddisgynyddion yr Arglwydd Rhys.

→ Mae Tŷ Newton wedi'i amgylchynu gan gerddi ffurfiol a parc ceirw enwog.

→ Daw'r enw Tŷ Newton o'r term canoloesol 'New Town'.

Fel plentyn bydden i yn aml yn dod fel teulu i ymweld a Parc Dinefwr. Cyn yr aseiniad yma bydden i byth wedi meddwl am darllen y gwybodaeth oedd ar y byrddau. Mae'r gwybodaeth fi wedi darllen yn diddorol iawn.

Mae Parc Dinefwr yn llawn hanes diddorol.

- Adeiladwyd y castell i amddifyn teyrnas Cymreig Deheubarth.
- O ben y tŵr, gall gwarchodwyr weld am filltiroedd ar draws Dyffryn Tywi.



Mae ystâd Dinefwr yn safle hanesyddol ac yn warchodfa Natur Genedlaethol, sy'n ei gwneud yn lle arbennig lle mae hanes a natur yn dod at ei gilydd.

## Casgliad Archwilio

mae archwilio Dinefwr wedi fy helpu i ddysgu am ei hanes rhyfeddol, ei adeiladau hardd a'i bywyd gwyllt arbennig.

O'r castell canoloesol sy'n gysylltiedig ag Arglwydd Rhys i dŷ Newton mawreddog a'r parc ceirw hynafol, mae pob rhan o'r ystad yn adrodd stori.

Mae Dinefwr yn lle arbennig lle mae hanes a natur yn dod ynghyd, gan ei wneud yn lle pwysig i'w warchod a'i fwynhau ar gyfer cenedlaethu'r dyfodol.



# CADW

Mae cadw yn golygu diogelu rhywbeth o ddifrod, yn aml drwy ei ddefnyddio'n ofalus neu ei gadw yn ei gyflwr gwreiddiol.

Mae Parc Dinefwr yn cael ei ddiogelu'n ofalus gan y Parc Cenedlaethol. Caiff ei ddiogelu oherwydd ei fywyd gwyllt pwysig a'i dirwedd hanesyddol.

Gall ymwelwyr helpu cadw/warchod y parc trwy mynd a sbwriel adref a chadw cŵn ar dennyn. Hefyd, dylent osgoi tarfu ar blanhigion ac anifeiliaid, a pharchu adeiladau hanesyddol a choed.





← Dyma 'Bug House' fi wedi prynnu sydd ar y sied tu allan, sy'n sicrhau cartref i'r trychfilod.

✡ → mae gwarchod yr amgylchedd yn bwysig oherwydd ei fod yn cynnal bywyd ar y ddaear ac yn helpu i sicrhau dyfodol iach i babi ac i fywyd gwyllt.

⌂ → mae planhigion, anifeiliaid a micro-organebau oll yn chwarae rhan bwysig mewn ecosystemau. Mae diogelu cynefinoedd yn helpu i atal ~~[illegible]~~ 'species' rhag diflannu. mae adeiladu tŷ Pryfed yn ffordd da o wneud hynny.

← mae'r un yma yn ffordd dda o warchod yr amgylchedd. Fodd bynnag, mae'n nhw'n gweithio orau fel rhan o ardd fwy sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt.

Yn gyffredinol, mae tai pryfed yn offeryn cadwraeth defnyddiol, yn enwedig ar gyfer pryfed sy'n peillio a phryfed buddiol.

mae llawer o ffyrdd o warchod yr amgylchedd. Gall camau syml, fel ailgylchu a phlannu coed, helpu i gadw ein planed yn iach ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.


(Rwyf wedi rhannu'r Scrapbook gyda eraill).



# David Attenborough

Pwy yw David Attenborough?

- Mae Sir David Attenborough yn darlledwr, hanesydd natur ac awdur Seisnig enwog.
- Dyddiad geni – 8fed o Fai 1926.
- Mae'n fwyaf adnabyddus am ysgrifennu a chyflwyno'r cyfresi arloesol 'Planet Earth' a 'The Blue Planet'.
- Yn ystod ei yrfa, mae wedi ysbrydoli cenedlaethau i werthfawrogi ac amddifyn y byd naturiol.
- mae wedi chwyldroi teledu bywyd gwyllt.

Pam mae e mor bwysig fel cadwriaethwr?

Ystyrir fod David Attenborough yn un o gadwraethwyr mwyaf dylanwadol y byd, nid oherwydd ei fod yn wyddonol sy'n cynnal ymchwil yn maes cadwraeth, ond oherwydd ei fod wedi trawsnewid y ffordd mae cannoedd o filiynau o bobl yn deall ac yn gwerthfawrogi'r byd naturiol.

Mae ei ddylanwad wedi ymestyn dros fwy na 70 mlynedd, gan ei wneud yn un o'r lleisiau mwyaf adnabyddus ac ymddiriedus yn maes addysg amgylcheddol.

→



## Ei Etifeddiaeth

Gellir dadlau mai cyfarthrebu yw cyfraniad mwyaf David Attenborough. Mae gwyddonwyr yn cynnal yr ymchwil sy'n esbonio problemau amgylcheddol, tra bod sefydliadau cadwraeth yn gwneud gwaith ymarferol ar lawr gwlad.

Mae e wedi cysylltu'r wyddoniaeth honno a'r cyhoedd, gan wneud materion ecolegol cymhleth yn dealladwy ac yn diddorol i bobl ledled y byd.